EUSUMS2

# Dyrannu a monitro’r defnydd o adnoddau a phobl ar gyfer gwaith cyfleustodau

## Trosolwg

Mae’r Safon hon yn ymwneud â dyrannu a monitro’r defnydd o ddeunyddiau, offer, cyfarpar, peirianwaith a phobl ar gyfer gwaith cyfleustodau. Gallai fod yn berthnasol i waith mewn un cyfleustod neu mewn amgylchedd aml-gyfleustod.

Mae’n cynnwys asesu manylebau swydd, sicrhau adnoddau, sicrhau bod adnoddau ar y safle pan eu bod yn ofynnol, cofnodi defnyddio adnoddau, caffael adnoddau ychwanegol neu amgen, lleihau a gwaredu gwastraff a storio neu ddychwelyd adnoddau.

Mae’r Safon hon i oruchwylwyr sy’n gyfrifol am ddyrannu a monitro’r defnydd o adnoddau a phobl yn eu maes cyfrifoldeb yn y sector cyfleustodau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod manylebau swydd yn nodi’r holl adnoddau sy’n ofynnol i gwblhau’r gwaith
2. cwblhau ceisiadau am feintiau penodol o ddeunyddiau, peirianwaith, offer, cyfarpar neu beiriannau yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
3. sicrhau safleoedd, offer, cyfarpar am y cyfnod y bwriedir i’r gwaith fynd rhagddo
4. sicrhau bod yr adnoddau’n cydymffurfio â gofynion ansawdd i gwblhau’r gwaith
5. dewis aelodau tîm â’r sgiliau, cymwysterau neu hyfforddiant priodol i weithredu peirianwaith, cyfarpar neu beiriannau a chwblhau tasgau gofynnol
6. trefnu bod adnoddau a staff penodedig yn eu lle mewn mannau gwaith
7. sicrhau bod adnoddau a staff yn cyrraedd yn y mannau gwaith mewn pryd i’r gwaith ddechrau
8. cadw cofnodion o ddefnyddio adnoddau a staff yn unol â gofynion sefydliadol
9. defnyddio gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy i nodi hepgoriadau neu anaddasrwydd adnoddau neu staff
10. gwerthuso cost adnoddau neu staff ychwanegol neu amgen yn unol â gofynion diogelwch a chyllideb a’u perthnasedd i’r gwaith
11. rhoi gwybod i benderfynwyr am oblygiadau cost ac angen yr adnoddau neu staff ychwanegol neu amgen ar adegau priodol
12. cyfathrebu ag aelodau tîm gan ddefnyddio gweithdrefnau priodol am ddefnyddio cyfarpar a deunyddiau a sut mae lleihau sgrap a gwastraff
13. sicrhau bod deunyddiau dros ben yn cael eu trin a’u diogelu mewn ffyrdd sy’n eu cadw mewn cyflwr i’w defnyddio yn y dyfodol
14. cofnodi ac adrodd am fanylion deunyddiau dros ben yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
15. sicrhau bod deunyddiau dros ben yn cael eu casglu a’u dychwelyd i’w storio yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
16. sicrhau bod peirianwaith, cyfarpar neu beiriannau yn cael eu trin, eu cynnal a’u cadw a’u storio yn unol â gofynion gweithredol a statudol
17. sicrhau y gwaredir pob gwastraff yn y modd amgylcheddol a argymhellir ac yn unol â pholisïau a rheoliadau’r cwmni
18. rhoi gwybod i benderfynwyr yn ddi-oed pan nad oes angen peirianwaith, cyfarpar neu beiriannau rhagor

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rheoliadau, gweithdrefnau a chanllawiau iechyd a diogelwch perthnasol sy'n berthynol ichi'ch hunain ac i eraill, dyletswydd gofal, sylweddau peryglus, cyfarpar diogelu personol (PPE), defnyddio cyfarpar a pheiriannau, lleoedd cyfyng, cloddiadau, peiriannau codi, codi a chario

    1.
    fformat a chynnwys manylebau swydd
    2.
    sut mae gwerthuso swydd a nodi gofynion adnodd
    3. cyllidebau sydd ar gael a sut mae cadw atynt wrth weithio
    4. ymhle mae cael gwybodaeth gost am adnoddau
    5. sut mae gwerthuso addasrwydd adnoddau
    6. manteision ac anfanteision cymaradwy llogi peirianwaith yn hytrach na bod yn berchen arno, gan gynnwys costau, cynnal a chadw, asedau a rhwymedigaethau
    7. sut mae paru sgiliau a chymwysterau â gofynion
    8. gofynion hyfforddiant a sut mae gweld a ydy aelodau tîm wedi'u hyfforddi
    9. dulliau a gweithdrefnau cyfathrebu a sut mae sicrhau bod eraill yn deall
    10. canllawiau gweithgynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar, peirianwaith a deunyddiau
    11. safonau ansawdd sefydliadol a sut maent yn berthnasol i'r gwaith a wneir
    12. sut mae defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf diwastraff
    13. pryd mae adrodd am broblemau sydd y tu hwnt i'ch arbenigedd neu awdurdod, a phwy ddylai gael gwybod amdanynt
    14. sut mae cyd-drafod a chael cymeradwyaeth i gael adnoddau ychwanegol
    15. gofynion storio dros dro a thymor hir ar gyfer deunyddiau 17. dulliau gwaredu gwastraff

EUSUMS2

Dyrannu a monitro'r defnydd o adnoddau a phobl ar gyfer gwaith cyfleustodau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Rhag 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Rhag 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSMUMS2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peirianegol, Rheolwyr Cyfleustod |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Rheoli Cyfleustod, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Ddefnyddioldeb |
| **Geiriau Allweddol** | cyfleustod; aml-gyfleustod; rheoli; adnoddau; deunyddiau; cyfarpar |